ADRODDIAD I'R: AWDURDOD TÂN AC ACHUB	
DYDDIAD: 29ain Mehefin 2009	**CYFEIRNOD:**

TESTUN: Datganiad Cyfrifon ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2008/09

CRYNODEB: Cyflwynir y Datganiad Cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09, yn amodol ar archwiliad. Mae angen cymeradwyaeth ffurfiol gan yr Aelodau erbyn 30ain Mehefin 2009. Gofynnir i'r Aelod Llywyddol yn y cyfarfod cymeradwyo lofnodi a dyddio'r Datganiad Cyfrifon.

AMCANION		GOBLYGIADAU	
Mwy na Gwasanaeth Brys		Rheoli Risg Weithredol	
Cael ein cwsmeriaid i'n parchu ac ymddiried ynom	Oes	Lleihau risg yn y gymuned	
Achub bywydau a diogelu cymunedau		Dysgu a Datblygu	
Rheoli o fewn y gyllideb	Oes	Canolfan Reoli'r Gwasanaeth	
Dyrannu Adnoddau i Flaenoriaethau		Argyfyngau Sifil a Gwydnwch	
Arbedion Effeithlonrwydd		Cyllid a Chaffaeliad	Oes
Nawdd ac Adnoddau Eraill		Adnoddau Dynol	
Rheoli Pobl		TGCh	
Cynllunio i Leihau Risg		CCChA	
Gwaith Partneriaeth		Trafnidiaeth	
Pobl Effeithiol ac Awdurdodedig		Iechyd a Diogelwch	
		Ystadau	
		Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd	
		Iaith Gymraeg	
		Cyfreithiol	
		Rheolaeth	Oes
		Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	
		Ymgynghori â Chyrff Cynrychiolaidd	

SYLWADAU/ARSYLWADAU AM YR AMCANION/GOBLYGIADAU UCHOD:

Mae'r Datganiad Cyfrifon (DC) yn nodi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar 31ain Mawrth 2009 ac yn dangos ei berfformiad ariannol yn ystod blwyddyn ariannol 2008/09. Mae gofyniad statudol i'r Awdurdod gymeradwyo'r DC nas archwiliwyd erbyn 30ain Mehefin 2009. Bydd y DC yn cael ei archwilio gan KPMG ar ran Swyddfa Archwilio Cymru a chyflwynir y DC a archwiliwyd i'r Awdurdod erbyn 30ain Medi 2009. Fel rhan o'r broses archwilio, bydd y cyfrifon nas archwiliwyd ar gael ar gyfer archwiliad cyhoeddus o 4ydd i 31ain Awst 2009. Ar ôl 30ain Medi, cyhoeddir y cyfrifon a archwiliwyd ar wefan yr Awdurdod a byddant ar gael mewn copi argraffedig i aelodau o'r cyhoedd ar gais.

ARGYMHELLION:

Bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09, a bod Cadeirydd yr Awdurdod, neu'i ddirprwy, yn llofnodi'r Datganiad Cyfrifon.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD WRTH BARATOI'R ADRODDIAD HWN:
Cyllideb Refeniw Gymeradwy, Rhaglen Gyfalaf a Dangosyddion Darbodus 2008/09; Y System Rheoli Ariannol a dogfennaeth ategol; Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2008 (y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir); Cod Ymarfer Cyfrifyddu Gwerth Gorau CIPFA 2008.

Awdur(on) yr Adroddiad a'u Swyddi	Steven Flather – Pennaeth Cyllid
Rhif ffôn/Estyniadau	01267 226870 neu estyniad 4470